Adran Gwaith
a Phensiynau

# Lwfans Gweini, Lwfans Gofalwr, Taliad Cymorth Gofalwyr a Chredyd Gofalwr

## Darllenwch hwn ac yna ei rhoi i'ch gofalwr os oes gennych un

Mae'r 2 ran i'r daflen hon:

- Rhan 1 – i chi
- Rhan 2 – ar gyfer eich gofalwr, os oes gennych un. Mae'n rhoi gwybodaeth am Lwfans Gofalwr, Taliad Cymorth Gofalwyr a Chredyd Gofalwr.

### Rhan 1 – i chi

Gallai eich budd-dal gael ei effeithio os bydd rhywun yn cael Lwfans Gofalwr neu Daliad Cymorth Gofalwyr am ofalu amdanoch.

Os bydd eich cais am Lwfans Gweini yn llwyddiannus, efallai y cewch swm ychwanegol ar gyfer anabledd difrifol gyda budd-dal yn ymwneud ag incwm neu Gredyd Pensiwn.

Os telir Lwfans Gofalwr neu Daliad Cymorth Gofalwyr i rywun am ofalu amdanoch, efallai na fyddwch yn gallu cael y swm ychwanegol hwn. Cysylltwch â'r swyddfa sy'n delio â'ch budd-daliadau am fwy o wybodaeth. Ni fydd hyn yn effeithio ar eich Lwfans Gweini.

### Rhan 2 – ar gyfer eich gofalwr

#### Lwfans Gofalwr

Os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr a'ch bod yn gofalu am rywun am 35 awr neu fwy bob wythnos, efallai y byddwch hefyd yn cael Lwfans Gofalwr. Gallwch gael Lwfans Gofalwr unwaith y byddwn wedi cytuno i'r person rydych yn gofalu amdanynt gael Lwfans Gweini. Mae'n rhaid i chi wneud cais am Lwfans Gofalwr o fewn 3 mis i'r penderfyniad Lwfans Gweini gael ei wneud neu gallech golli budd-dal.

## Lwfans Gofalwr a budd-daliadau eraill

Gall rhai budd-daliadau, lwfansau neu bensiynau newid faint o Lwfans Gofalwr y gallwn ei dalu. Mae hyn yn golygu, os ydych yn cael budd-dal arall, efallai na fyddwn yn talu Lwfans Gofalwr o gwbl, neu'n talu llai i chi. Ond efallai y byddwch yn dal yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr hyd yn oed os na allwn ei dalu. Mae hyn yn golygu y gallech gael swm ychwanegol wedi'i dalu gyda Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Cymhorthdal Incwm, Credyd Pensiwn neu Fudd-dal Tai.

## Sut i wneud cais am Lwfans Gofalwr neu gael fwy o wybodaeth

Sut i wneud cais am Lwfans Gofalwr neu gael fwy o wybodaeth:

- ewch i **www.gov.uk/lwfans-gofalwr**
- ffoniwch **0800 731 0297**
- Os ydych yn defnyddio Relay UK, deialwch 18001 ac yna ein rhif ffôn.
- ysgrifennwch atom yn:
  - Carer's Allowance Unit
    Mail Handling Site A
    Wolverhampton
    WV98 2AB

## Taliad Cymorth Gofalwyr

Os ydych yn byw yn Yr Alban, efallai yr hoffech ystyried gwneud cais am Daliad Cymorth Gofalwyr. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Daliad Cymorth Gofalwyr a sut i wneud cais drwy fynd i **www.mygov.scot/benefits** neu drwy ffonio **0800 182 2222**.

## Credyd Gofalwr

Os na allwch gael Lwfans Gofalwr neu Daliad Cymorth Gofalwyr ac yn gofalu am un neu fwy o bobl anabl am gyfanswm o 20 awr neu fwy yr wythnos, gallwch wneud cais am Gredyd Gofalwr. Credyd Yswiriant Gwladol yw hwn ar gyfer gofalwyr o oedran gweithio. Gall eich helpu i fod yn gymwys i gael Pensiwn y Wladwriaeth a budd-daliadau profedigaeth.

Nid oes angen i chi wneud cais am Gredyd Gofalwyr os ydych yn cael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 12 oed neu'n cael Lwfans Gofalwr neu Daliad Cymorth Gofalwr gan y byddwch eisoes yn cael credydau Yswiriant Gwladol.

Gallwch ddarganfod mwy am Gredyd Gofalwyr a sut i wneud cais:

- ar-lein yn **www.gov.uk/credyd-gofalwyr**
- ffonio **0800 731 0297**
- Os ydych yn defnyddio Relay UK, deialwch 18001 ac yna ein rhif ffôn.

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir o fis Tachwedd 2024. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth yn newid dros amser.

## Costau galwadau

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o ffonau symudol personol a llinellau daear.